DISGRIFIAD SWYDD

Teitl swydd	Eiriolydd Polisi
Band cyflog	6
Pwrpas y rôl	Mae'r rôl hon yn rhoi cefnogaeth i ddatblygu polisïau er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr, cefnogi buddiannau defnyddwyr a lleihau colled a niwed i ddefnyddwyr. Cyfrannu at weithredu'r rhaglen waith ar destun neu fater penodol fel y cytunir arno gyda'r Uwch Eiriolydd Polisi. Cyflwyno prosiectau unigol a chynlluniau gwaith y cytunir arnynt ar amser ac yn unol â'r gyllideb. Dan gyfarwyddyd yr Uwch Eiriolwr Polisi, cynorthwyo gydag ymchwil a chyfathrebu. Cynnal cysylltiadau gwaith cydweithredol. Cyfrannu syniadau newydd a dulliau newydd o weithio lle bo modd.
Yn gyfrifol am ganlyniadau	Cyfrannu at ddibenion strategol Llais Defnyddwyr/Consumer Focus, yng nghyswllt: • Marchnadoedd Agored – Gwella dylanwad defnyddwyr dros nwyddau a'r gwasanaeth a dderbyniant i helpu pobl i gael gwerth gwell. • Cynaliadwyedd – Harneisio brwdfrydedd defnyddwyr tuag at ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy • Gwasanaeth – Gwella gwasanaethau cwsmeriaid a lleihau lefel uchel y problemau diangen sy'n gyfrifol am gwynion gan ddefnyddwyr • Mynediad – Creu economi lle mae pawb yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hanfodol y mae eu hangen arnynt a'r tlawd bellach ddim yn talu mwy neu'n cael llai am eu harian fel defnyddwyr.
Yn adrodd i	Arweinydd Rhaglen / Uwch Eiriolwr Polisi / Prif Eiriolwr Polisi yn ôl yr angen
Adroddiadau uniongyrchol	Dim
Cysylltiadau Allweddol	Eiriolwyr Polisi Cydlynydd Ymchwil Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu
Atebolrwydd allweddol	**Ymgysylltu â rhanddeiliaid** Cynorthwyo'r Uwch Eiriolydd Polisi/Prif Eiriolydd Polisi ac Arweinydd y Rhaglen i wneud y canlynol: • Meithrin cysylltiadau allweddol sy'n dylanwadu neu'n effeithio ar y mater neu'r testun. Darparu atebion i ymholiadau a chysylltiadau • Cefnogi rhwydweithiau'r Uwch a'r Prif Eiriolwyr Polisi a'r Arweinwyr Rhaglen er mwyn cynorthwyo gyda hyrwyddo polisïau newydd a chael gwybod am ddatblygiadau newydd **Cynllun gwaith** • Cyflwyno cynllun gwaith unigol i safonau ansawdd y cytunir

	arnynt ac ar amser ac yn unol â'r gyllideb • Darparu cysyniadau a dadleuon rhesymegol i ddatblygu polisi i'r safonau uchaf • Archwilio cysylltiadau â rhaglenni a chynlluniau eraill i ddeall yr elfennau hanfodol sy'n dibynnu ar ei gilydd a chefnogi rhaglenni eraill lle bo hynny'n bosibl **Ymgysylltu â'r defnyddwyr** Ar y cyd â'r Uwch Gynghorydd Polisi neu'r arweinydd rhaglen: • Creu cyfleoedd i ymgysylltu â defnyddwyr a rhyngweithio gyda'r tîm • Rhoi'r cynllun ymgysylltu â defnyddwyr ar waith er mwyn cyflawni amcanion strategol • Cadw llygad barcud ar faterion a phryderon sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i ddefnyddwyr **Gwybodaeth** • Adeiladu a chynnal rhwydweithiau gwybodaeth • Cynnal rhaglenni ymchwil fel y bo'n briodol • Darparu gwybodaeth, cyfryngau, dulliau a fframweithiau dadansoddol er mwyn gallu trosi data crai yn wybodaeth ystyrlon • Gwneud cais am gymorth arbenigwyr lle bo angen i ategu'r dadansoddi • Cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau ansawdd yr holl wybodaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod y sylfaen dystiolaeth yn gadarn a dehongliadau'n briodol **Datblygu Polisi** • Datblygu dealltwriaeth gadarn o bob agwedd ar y testun neu fater, gan gynnwys gwybodaeth dda o'r cyd-destun a datblygiadau tebygol. Deall y prif bethau sy'n cymell ac yn hybu busnes • Cyfrannu at lunio'r safiad y dylai Llais Defnyddwyr ei gymryd o ran y testun a helpu i ddatblygu'r polisi. • Cyfleu a chofnodi'r dull gweithredu y cytunir arno i'w ddefnyddio mewn amrywiol gyfryngau a fformatau. • Darparu syniadau ffres ac atebion newydd ac arloesol i faterion a phroblemau defnyddwyr lle bo hynny'n bosibl. **Eiriolaeth a Chyfathrebu** Cynorthwyo'r Uwch Eiriolydd Polisi neu'r Prif Eiriolydd neu Arweinydd y rhaglen i wneud y canlynol: • Llunio'r cynllun eirioli ar gyfer rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd allweddol • Cyflwyno tystiolaeth a pholisi drwy sianeli a dulliau eirioli priodol. • Monitro effaith a gwerth gwaith eiriolaeth polisi er mwyn adeiladu a chynnal arfer gorau

Gwybodaeth a Sgiliau	Bydd gan ddeilydd y swydd y profiad a'r wybodaeth ganlynol: • Profiad o weithio yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol, yn rheoli prosiectau ar amser ac yn unol â'r gyllideb • wedi cael profiad o ddatblygu polisïau'n llwyddiannus i ddylanwadu ar ganlyniadau a sicrhau newid • profiad o faterion polisi sy'n berthnasol i'r rôl, er enghraifft ym meysydd polisi cymdeithasol, economaidd neu gystadleuaeth, yn arbennig o safbwynt y defnyddiwr (er nad oes yn rhaid cael profiad penodol ym maes defnyddwyr) • dealltwriaeth o weithio gyda llywodraeth a llunwyr penderfyniadau busnes, gan gynnwys gwybodaeth o ddatganoli, a dealltwriaeth o natur atebolrwydd ac annibyniaeth mewn corff sector cyhoeddus. • empathi tuag at y materion penodol sy'n wynebu defnyddwyr bregus a sut y gellir goresgyn y rhain yn y farchnad. • profiad o weithio ar y cyd gyda thimau sy'n perfformio'n llwyddiannus Bydd gan ddeilydd y swydd y sgiliau a'r nodweddion canlynol: **Cyfathrebu** • gallu cyfathrebu'n glir ac yn gryno, gan addasu'i arddull i gynulleidfaoedd er mwyn cael yr effaith orau bosibl. • gallu strwythuro a chyfleu syniadau a darparu gwybodaeth yn syml ac yn gywir • arddull empathig a llawn perswâd y mae pobl yn naturiol yn closio ato • gallu holi'n ddeallus ac asesu safbwyntiau a barn **Ymgyrchu** • sgiliau dylanwadu da er mwyn gallu dylanwadu ar randdeiliaid a chydweithwyr • arbenigedd polisi a gwleidyddol, yn sensitif i'r goblygiadau ar draws amrywiaeth eang o adrannau'r llywodraeth. • gallu cyfrannu at bob agwedd ar lunio polisïau e.e. gwybodaeth am y maes defnyddwyr, dadansoddi polisi, cyfathrebu a chyflwyno eiriolaeth ymarferol. **Sgiliau dadansoddol a deallusol** • ystod deallusol eang a sgiliau rhesymu a dadansoddi cryf. • gallu blaenoriaethu materion a chanolbwyntio ar ddadleuon craidd er mwyn datblygu polisi effeithiol • ffocws ar yr effaith ar ddefnyddwyr fel conglfaen perfformiad a diwylliant sefydliadol

Cymwyseddau	Dynodi cymhwysedd a'r lefel ofynnol: • Dylanwadu pwrpasol ac ymatebol – Lefel 3 • Hidlo, barnu a gweithredu – Lefel 3 • Uniondeb - Lefel 4 • Troi geiriau'n weithredoedd o ran gwasanaeth i gwsmeriaid – Lefel 4 • Gweithio ynghyd er budd y busnes – Lefel 4 • Creu perthnasoedd - Lefel 3
Lleoliad	Llundain, Caerdydd neu Glasgow, gyda theithio achlysurol yn y Deyrnas Unedig